Earthmover's House
Uned 16
Parc Busnes Llantrisant
Llantrisant
CF72 8LF
01443 226170
info@prichardholdings.co.uk
www.prichardholdings.co.uk

PRICHARD'S

Annwyl Breswylydd,

Rydyn ni wedi cael ein penodi gan yr awdurdod lleol i wneud gwaith paratoi ymlaen llaw ar hen safle'r Neuadd Bingo, fel bod modd bwrw ymlaen â'r gwaith ailddatblygu.

Bydd y gwaith yn cynnwys symud y deunydd sydd ar y safle ar hyn o bryd, ynghyd â chludo agregau newydd i'r safle. Bydd y gwaith yn dechrau ddydd Llun 6 Tachwedd ac yn parhau am gyfnod o 8 wythnos, gyda'r safle ar gau dros gyfnod y Nadolig.

Yn ystod y gwaith, bydd modd i gerddwyr gyrraedd y Stryd Fawr gan ddefnyddio llwybr ar ran isaf y safle. Serch hynny, bydd llwybr troed a lôn yn cau ar Heol Sardis, ar hyd y safle cyfan, tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo. Bydd hefyd angen cau'r Stryd Fawr am o leiaf ddau ddydd Sul yn ystod mis Tachwedd er mwyn cynnal tyllau prawf ar gyfer cyfleustodau presennol. Bydd pob dargyfeiriad yn cael ei nodi'n glir.

Bydd y gwaith yn mynd rhagddo ar yr ardal sydd â phaneli diogelu o'i hamgylch, hynny yw, hen safle'r Neuadd Bingo. Serch hynny, efallai y byddwch chi'n sylwi ar ragor o gerbydau HGV wrth i ni gludo deunyddiau i'r safle ac ymaith. Byddwch yn effro i'r cerbydau trwm a'r wagenni fydd ar y ffyrdd yn ystod cyfnod y gwaith. Bydd ein carfan ar y safle yn hapus i ateb unrhyw gwestiwn neu fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd gyda chi. Byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod y gwaith yn tarfu cyn lleied â phosibl ar drigolion.

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r prosiect neu os ydych chi eisiau rhoi gwybod am faterion sy'n ymwneud â'r safle, ffoniwch ein Swyddog Cyswllt ar 01443 226170. Ffoniwch rhwng 8am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener ac fe wnawn ni bob ymdrech i'ch helpu chi.

Yn gywir,

Owain Morgan

Rheolwr Contractau

Earthmover's House
Uned 16
Parc Busnes Llantrisant
Llantrisant
CF72 8LF
01443 226170
info@prichardholdings.co.uk
www.prichardholdings.co.uk

PRICHARD'S